



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arfer gorau

Atodiad 6

Drafft

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Diben Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhan ganolog o becyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisiau a dogfennau cyngor cynllunio newydd a diwygedig, a chanllawiau arferion da ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddant, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.

Mae'r ddogfen ddrafft hon yn rhan o'r ymgynghoriad deuddeg wythnos ar gynigion i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a dogfennau canllaw drafft sy'n ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd yn dod i ben ar 3 Hydref 2016. Mae'r ddogfen ymgynghori, y ffurflen ymateb a'r holl ganllawiau drafft cysylltiedig ar gael ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we (<http://llyw.cymru/consultations/cultureandsport/?lang=cy>).

Wrth baratoi'r ddogfen hon, aed ati ar yr un pryd i ddiwygio pennod 6, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn *Polisi Cynllunio Cymru* ac i lunio *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*. Byddai'n fuddiol darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau hynny.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar bennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru* i ben ar 13 Mehefin 2016 ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion ar hyn o bryd. Mae'r bennod ar gael o hyd ar y dudalen ymgynghori ar y we (<http://llyw.cymru/consultations/planning/proposed-changes-to-planning-policy-wales-chapter-6-the-historic-environment/?lang=cy>) ond mae'n bosibl y bydd yn cael ei newid ar ôl i ganlyniadau'r

ymgyngoriad gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at *Polisi Cynllunio Cymru* yn cyfeirio at y fersiwn honno.

Ar yr un pryd â'r ymgyngoriad hwn, mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn mynd ati hefyd i geisio barn am *Nodyn Cyngor Technegol 24*. Bydd yr ymgyngoriad hwnnw, a fydd yn para deuddeg wythnos, hefyd yn dod i ben ar 3 Hydref 2016, a byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn mynegi barn. Ewch i dudalennau ymgyngori Llywodraeth Cymru ar y we (<http://llyw.cymru/consultations/planning/?lang=cy>) i lawrlwytho *Nodyn Cyngor Technegol 24*, y ddogfen ymgyngori a'r ffurflen ymateb. Mae unrhyw gyfeiriadau at *Nodyn Cyngor Technegol 24* yn cyfeirio at y fersiwn honno.

11 Gorffennaf 2016

11 Gorffennaf 2016

DRAFFT

Lleoliad Asedau Hanesyddol
yng Nghymru

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Datganiad o Ddiben

Mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio beth yw lleoliad, sut mae'n cyfrannu ar arwyddocâd ased hanesyddol a pham mae'n bwysig.

Mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* hefyd yn nodi'r egwyddorion a ddefnyddir i asesu effaith bosibl cynigion ar gyfer datblygu neu gynigion ar gyfer rheoli tir ar leoliadau Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion (cofrestredig ac anghofrestredig), adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, maent yr un mor berthnasol i bob ased hanesyddol unigol, waeth beth fo'i ddynodiad. Ni fwriedir i'r canllawiau ymdrin â'r effaith ar leoliad yr amgylchedd hanesyddol ar raddfa tirwedd. Ystyrir hyn gan ganllawiau ar wahân.¹

Mae'r canllawiau arfer gorau hyn wedi'u hanelu at ddatblygwyr, perchenogion, deiliaid ac asiantau, a ddylai ei ddefnyddio i lywio cynlluniau rheoli a chynigion ar gyfer newid a all effeithio ar leoliad ased hanesyddol. Dylai hefyd eu helpu i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth)* Cadw er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.²

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau a'u cynghorwyr hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru: Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol*,³ *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*,⁴ *Egwyddorion Cadwraeth* a chanllawiau arfer gorau eraill i lywio polisiau lleol ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

¹ [Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu](#), (2^{il}) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

² Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru; [Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy](#), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

³ *Polisi Cynllunio Cymru — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

⁴ *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym	1
Cyflwyniad	2
1. Beth yw Lleoliad?	2
Ffactorau sy'n Cyfrannu at Lleoliad Ased Hanesyddol	
2. Pam y Dylid Asesu Lleoliad?	4
2.1 Rheoli Asedau Hanesyddol	4
2.2 Cyflwyno Cais Cynllunio	4
2.3 Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth	5
3. Pwy Ddylai Asesu Lleoliad?	5
4. Sut i Asesu Effaith Newid neu Waith Datblygu ar Lleoliad Ased Hanesyddol	5
4.1 Cam 1: Nodi'r Asedau Hanesyddol	6
4.2 Cam 2: Diffinio a Dadansoddi'r Lleoliad	7
4.3 Cam 3: Gwerthuso Effaith Bosibl Newid neu Waith Datblygu	8
4.4 Cam 4: Ystyried yr Opsiynau ar gyfer Lliniaru Effaith Newid neu Ddatblygiad Arfaethedig	9
4.5 Dogfennu'r Asesiad	10
5. Mesurau Gwrthbwysu	10
6. Gwella'r Lleoliad	10
Atodiad	11
Rhagor o Wybodaeth	12
Cysylltiadau	13

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Ffeithiau Cyflym

- Mae lleoliad yn bwysig i'r ffordd y mae asedau hanesyddol yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u profi ac mae'n cyfrannu at eu harwyddocâd.
- Mae lleoliad yn aml yn ymestyn y tu hwnt i ffin eiddo, neu 'gwrtil', ased hanesyddol unigol i gyd-destun tirwedd ehangach. Gall ffactorau ansylweddol yn ogystal â ffactorau ffisegol fod yn bwysig er mwyn deall lleoliad ased hanesyddol. Gall y rhain gynnwys swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol.
- Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried lleoliadau asedau hanesyddol wrth lunio cynlluniau datblygu a phan fyddant yn penderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Pan gynigir newid neu waith datblygu, mae'n bwysig nodi'r asedau hanesyddol y gellid effeithio arnynt, diffinio lleoliad pob ased hanesyddol ac asesu effaith bosibl y datblygiad ar y lleoliad hwnnw. Fodd bynnag, prin yw'r achosion a fydd yn gofyn am waith dadansoddi helaeth ac mae'n bosibl na fydd rhai cynigion yn cael unrhyw effaith o gwbl.
- Os yw newid neu waith datblygu arfaethedig yn debygol o gael effaith ar leoliad, mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn llunio asesiad ysgrifenedig cymesur a gwrthrychol i lywio'r broses gwneud penderfyniad. Dylai'r asesiad hwn ystyried arwyddocâd yr ased a'i leoliad a mesur maint yr effaith. Dylai'r fethodoleg a lefel y wybodaeth fod yn gymesur â'r achos.
- Dylai cynigion datblygu geisio lleihau unrhyw effaith niweidiol ar leoliad ased hanesyddol.
- Gall ymgeiswyr geisio cyngor gan awdurdodau cynllunio lleol ynghylch a ddylai cais cynllunio gynnwys asesiad o effaith eu datblygiad arfaethedig ar leoliad ased hanesyddol.
- Dylid darparu canlyniadau'r asesiad mewn adroddiad ysgrifenedig sy'n ddealladwy i ddarllenwyr arbenigol a darllenwyr nad ydynt yn arbenigwyr. Dylid adneuo copi o'r adroddiad gyda'r cofnod amgylchedd hanesyddol priodol.

Cyflwyniad

Mae'r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd treftadaeth ddiwylliannol Cymru ynghyd â'i hymdeimlad o hunaniaeth. Mae'n cynnwys amrywiaeth o asedau hanesyddol, gan gynnwys safleoedd archaeolegol, henebion, adeiladau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth. Mae'n bosibl bod yr elfennau hyn o dirwedd ehangach a threfluniau Cymru yn cael eu defnyddio am flynyddoedd lawer a'u bod wedi datblygu dros gyfnod hir.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd y mae angen i ni ei drysori a'i warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, nid oes angen i warchodaeth atal newid. Gall newid gynyddu cynaliadwyedd hirdymor a hyfywedd economaidd asedau hanesyddol. Gall hefyd wella ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd drwy gynyddu gweithgarwch adfywio a thwristiaeth. Gyda'i gilydd, bydd y manteision hyn yn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol drwy gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).⁵ Ond mae angen rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol a gall ei effeithiau ymestyn y tu hwnt i asedau hanesyddol unigol a dyna pam mae angen i ni ystyried a, lle y bo'n briodol, warchod eu lleoliadau.

1. Beth yw Lleoliad?

Lleoliad yw'r ardal o amgylch ased hanesyddol lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos.⁶ Yn aml, mae'n ymestyn y tu hwnt i ffin yr eiddo neu'r 'cwrtill' ac i mewn i'r dirwedd neu'r treflun o'i amgylch.⁷ Mae llawer o asedau hanesyddol yn weladwy ac mae eu lleoliadau yn amlwg. Fodd bynnag, mae gan y rhai sydd wedi'u claddu leoliad hefyd.

Gall lleoliad ased hanesyddol gynnwys elfennau ffisegol yr ardal o'i amgylch. Gall y rhain fod yn waliau terfyn, caeau cyfagos neu gydberthnasau swyddogaethol a ffisegol ag asedau neu nodweddion naturiol eraill. Er enghraifft, gallai lleoliad ffermdy rhestredig gael ei ddiffinio fel y tir amaethyddol o'i amgylch. Yn yr un modd, gallai lleoliad tŷ injan stêm diwydiannol cofrestredig gael ei ddiffinio fel y dirwedd ddiwydiannol o chwareli, tramffyrdd neu domenni gwastraff sy'n gysylltiedig ag ef.

Gall lleoliad ased hanesyddol hefyd gynnwys elfennau llai pendant. Gall y rhain gynnwys swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol. Er mai golygfeydd i'r ased hanesyddol ac oddi yno yw'r ffactor amlycaf yn aml, gall elfennau synhwyraidd eraill gael effaith ar leoliad hefyd — er enghraifft, y sŵn o ffordd mewn cloddiaid neu synau ac arogleuon proses ddiwydiannol newydd mewn adeilad sy'n bodoli eisoes. Gall elfennau o'r fath fod yn

⁵ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁶ Mae'r diffiniad hwn o leoliad yn ymhelaethu ar yr hyn a nodir yn [Egwyddorion Cadwraeth](#).

⁷ *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 1.21

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

rhy oddrychol ac yn anos eu hasesu na ffactorau ffisegol, ond mae'r ddau yn ffurfio lleoliad ased hanesyddol ac yn cyfrannu at ei arwyddocâd.

Nid yw lleoliad ased hanesyddol yn sefydlog a gall newid dros amser wrth i'r ased a'r ardal o'i amgylch ddatblygu. Gall y newidiadau hyn gael effaith negyddol ar arwyddocâd ased; er enghraifft, colli'r elfennau ffisegol o amgylch yr ased sy'n ei alluogi i gael ei ddeall, neu gyflwyno datblygiad newydd gerllaw sy'n cael effaith weledol fawr. Ond gall newidiadau hefyd gael effaith gadarnhaol sy'n gwella'r lleoliad, megis symud traffig o ran o dref hanesyddol, neu agor golygfeydd, neu adfer ymdeimlad o amgáu i safleoedd lle mae wedi'i golli.

Ffactorau sy'n cyfrannu at leoliad ased hanesyddol

Mae lleoliad yn disgrifio'r gydberthynas rhwng ased hanesyddol a'r dirwedd neu'r treflun o'i amgylch. Mae'n bwysig oherwydd yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol. Gall lleoliad gynnwys amrywiaeth o ffactorau, sef:

- cydberthnasau swyddogaethol a ffisegol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a'r ffordd y mae'r rhain wedi newid dros amser
- nodweddion topograffig a ddylanwadodd ar ei leoliad
- cymeriad ffisegol y dirwedd neu'r treflun o'i amgylch, gan gynnwys unrhyw waith cynllunio ffurfiol neu ddefnydd tir
- cynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a sut mae wedi newid
- elfennau claddedig neu archaeolegol posibl o amgylch yr ased hanesyddol
- golygfeydd i, o ac ar draws yr ased neu'r lle hanesyddol
- golygfeydd ffurfiol ac wedi'u cynllunio
- amlygrwydd yr ased hanesyddol mewn golygfeydd ledled yr ardal o'i hamgylch
- golygfeydd sy'n gysylltiedig â diben esthetig, swyddogaethol neu ddefodol yr ased; er enghraifft, safleoedd amddiffynnol, fflaglau neu dirweddau a gynlluniwyd
- cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol neu gysylltiadau ag enwau lleoedd
- elfennau synhwyraidd eraill — sŵn neu arogleuon sy'n gysylltiedig â'r ased hanesyddol
- llonyddwch, natur anghysbell neu 'naws wyllt' y lleoliad.

2. Pryd y Dylid Asesu Lleoliad?

2.1 Rheoli Asedau Hanesyddol

Mae'n arfer rheoli da i sicrhau eich bod yn deall lleoliad asedau hanesyddol rydych yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. Dylai diffinio a dadansoddi lleoliad ased hanesyddol fod yn rhan o unrhyw ddatganiad o arwyddocâd⁸ neu gynllun rheoli cadwraeth. Mae'n rhan o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ein galluogi i ddeall ased hanesyddol a'i arwyddocâd yn llawn. Mae asesiad o leoliad yn ddefnyddiol pa un a oes angen cael caniatâd cynllunio neu gydsyniadau eraill ar gyfer newid arfaethedig ai peidio. Gall newid gynnwys gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu, gwaith adfer a gwaith ailadeiladu, gwaith newydd neu waith addasu, a gwaith dymchwel.

2.2 Cyflwyno Cais Cynllunio

Mae'n rhaid i geisiadau am ganiatâd cynllunio roi gwybodaeth ddigonol, ond cymesur, i'r awdurdod cynllunio lleol fel y gellir asesu effaith debygol eu cynigion ar leoliad y canlynol:

- Safle Treftadaeth y Byd
- heneb o bwys cenedlaethol (cofrestredig neu anghofrestredig)⁹
- adeilad rhestredig
- ardal gadwraeth
- parc a gardd hanesyddol gofrestredig.

Gall deall lleoliad ased hanesyddol eich helpu i lunio cynigion datblygu priodol. Gellir defnyddio'r broses hon i nodi dulliau gweithredu amgen a gall eich helpu i gynllunio a dylunio eich cynigion yn well fel eu bod yn lleihau niwed ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i leoliad ased hanesyddol. Bydd y wybodaeth hon yn helpu'r awdurdod cynllunio lleol i ddeall y rhesymau dros eich cynigion pan fydd yn penderfynu ar eich cais cynllunio.

Ymhell cyn i chi gyflwyno cais cynllunio, mae'n arfer da ceisio cyngor arbenigol a thrafod eich cynnig â'r awdurdod cynllunio lleol a, lle y bo'n briodol, â Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Mewn trafodaeth cyn ymgeisio, gallwch gadarnhau a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith ar leoliad unrhyw ased hanesyddol a pha asesiad y gallai fod angen i chi ei gynnal¹⁰

Mae angen i unrhyw asesiad fod yn gymesur ag effaith debygol y cynnig ar leoliad yr ased hanesyddol. Ar gyfer cynigion sy'n cynnwys effaith fach iawn ar leoliad un ased, efallai y bydd asesiad yn seiliedig ar restr wirio syml gyda datganiad byr ar gyfer pob un o'r pedwar cam a ddisgrifir isod yn ddigonol. Ar gyfer prosiectau sy'n

⁸ Gweler [Egwyddorion Cadwraeth](#)

⁹ *Polisi Cynllunio Cymru*: Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.6

¹⁰ Mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â Cadw cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio penodol am waith datblygu mawr (gweler [Gorchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2016, erthygl 4](#)); [Gwireddu Potensial Trafodaethau Cyn Ymgeisio](#), Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

cynnwys nifer o asedau neu newidiadau yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith fawr ar arwyddocâd yr ased, bydd angen dadansoddiad manylach.

Mae angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar fathau penodol o waith datblygu, a allai gynnwys asesu effaith y datblygiad ar leoliad ased hanesyddol. Ceir rhagor o wybodaeth a chyngor am asesu effeithiau amgylcheddol ar wefan Llywodraeth Cymru.¹¹

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Cadw ar gynigion datblygu sy'n effeithio ar leoliad heneb gofrestrdig (gweler atodiad)¹² neu ar barc hanesyddol cofrestredig neu ardd hanesyddol gofrestrdig neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd, yn eu barn hwy.¹³

2.3 Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth

Mae lleoliad yn ystyriaeth mewn ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad heneb gofrestrdig. Gall eich asesiad o leoliad fod yn rhan o ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Am ragor o wybodaeth, gweler *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig a Rheoli Newid i Henebion Cofrestredig*.¹⁴

3. Pwy Ddylai Asesu Lleoliad?

Er mwyn deall lleoliad ased hanesyddol ac asesu effaith gwaith datblygu mae angen gwybodaeth, hyfforddiant a medrusrwydd. At ddibenion ceisiadau cynllunio — yn enwedig achosion cymhleth — dylai'r gwaith o ddiffinio, dadansoddi ac asesu lleoliad ased hanesyddol gael ei gyflawni gan arbenigwr cymwysedig a medrus.

At ddibenion rheoli — megis llunio cynllun rheoli cadwraeth — ac yn dibynnu ar gymhlethdod a maint asedau hanesyddol a'u lleoliadau, efallai y bydd perchenogion neu grwpiau lleol yn gallu dadansoddi lleoliad fel y nodir yng nghamau 1 a 2 isod.

4. Sut i Asesu Effaith Newid neu Waith Datblygu ar Leoliad Asedau Hanesyddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y dylai aseswyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eu hystyried wrth asesu effaith newid neu ddatblygiad arfaethedig ar leoliad ased hanesyddol.

¹¹ <http://gov.wales/topics/planning/developcontrol/environmental-impact-assessment/?lang=cy>

¹² [Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2016, atodlen 4 \(l\)\(i\) a \(ii\)](#); gweler Atodiad 1 am feini prawf sy'n ymwneud â henebion cofrestredig

¹³ *Nodyn Cyngor Technegol 24*, para 1.26; *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi; *Rheoli Newid i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

¹⁴ *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi; *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi; *Rheoli Newid i Henebion Cofrestredig*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Yn ei hanfod, mae pedwar cam.

Cam 1: Nodi'r asedau hanesyddol y gallai newid neu ddatblygiad arfaethedig effeithio arnynt a'u harwyddocâd.

Cam 2: Diffinio a dadansoddi'r lleoliadau er mwyn deall sut maent yn cyfrannu at y ffyrdd y mae'r asedau hanesyddol yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u profi.

Cam 3: Gwerthuso effaith bosibl newid neu ddatblygiad arfaethedig ar y lleoliadau hynny.

Cam 4: Ystyried opsiynau i liniaru effaith bosibl newid neu ddatblygiad arfaethedig ar y lleoliadau hynny.

4.1 Cam 1: Nodi'r Asedau Hanesyddol

Mae chwilio am wybodaeth yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, sy'n cael eu curadu gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, yn fan cychwyn da. Mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn cynnwys Cof Cymru — sef cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol yng Nghymru,¹⁵ Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a swyddfeydd cofnodion lleol.

Gall gwahanol dechnegau helpu i nodi pa asedau hanesyddol a lleoliadau y gallai'r newid neu'r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt. Er enghraifft, gall parthau gweledd damcaniaethol (ZTV) fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer prosiectau mawr neu gymhleth,¹⁶ fel arall efallai y bydd asesiad gweledol o nifer o wylfannau yn ddigonol.

Ar ddiwedd cam 1, mae'n arfer da llunio asesiad byr sy'n cynnwys y canlynol:

- manylion lleoliad, maint a graddfa'r newid neu'r datblygiad arfaethedig
- lleoliad yr asedau hanesyddol a nodwyd
- lle y bo'n briodol, cynllun sy'n troshaenu'r parth gweledd damcaniaethol ar safleoedd yr asedau hanesyddol
- arfarniad cyflym o arwyddocâd yr asedau hanesyddol a nodwyd.

Bydd yr asesiad hwn yn helpu'r aseswr, yr awdurdod cynllunio lleol a, lle y bo'n briodol, Cadw i gytuno ar faint o waith dadansoddi sydd angen ei wneud er mwyn nodi effaith debygol y newid neu'r datblygiad ar leoliadau'r asedau hanesyddol. Dylai'r asesiad arfaethedig fod yn gymesur â'r effaith debygol ac mae'n well cytuno ar ei gwmpas cyn dechrau camau 2 a 3.

¹⁵ [Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol yng Nghymru](#)

¹⁶ Mae astudiaethau ZTV yn diffinio'r ardaloedd y gallai fod yn bosibl gweld datblygiad cyfan neu ran ohono ohonynt drwy gyfeirio at y topograffi oddi amgylch. Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried unrhyw arteffactau yn y dirwedd megis coed, coetir neu adeiladau. Felly, gelwir yr astudiaeth yn barth gweledd damcaniaethol.

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Byddai asesiad ar gyfer rheoli ased hanesyddol yn cynnwys yr holl nodweddion hanesyddol y tu mewn i'w ffin. Byddai hefyd yn cynnwys unrhyw nodweddion hanesyddol a naturiol sydd y tu allan i'r ffin, ond y gellir eu gweld wrth edrych tuag at yr ased hanesyddol ac oddi yno ac a all gyfrannu at ei arwyddocâd.

4.2 Cam 2: Diffinio a Dadansoddi'r Lleoliad

Mae lleoliad ased hanesyddol yn cynnwys y canlynol:

- ei lleoliad presennol
- ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad presennol
- yr hyn sydd wedi goroesi o'i lleoliad hanesyddol (os oes unrhyw beth wedi goroesi) ynghyd ag unrhyw newidiadau hanesyddol a wnaed ar ôl hynny.

Nid yw'n olygfa ôl-syllol o'r dirwedd pan adeiladwyd ased neu ar unrhyw adeg arall yn ystod ei hanes. Ac nid yw lleoliad yn dibynnu ar hawliau tramwy cyhoeddus na'r gallu i gyrraedd yr ased neu wylfannau ar hyn o bryd ychwaith. Yn yr un modd, nid yw nifer yr ymwelwyr â safle neu wylfan yn effeithio ar bwysigrwydd y lleoliad.

Dylai Cam 2 nodi'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at arwyddocâd pob ased hanesyddol a'i lleoliad. Gall ateb y cwestiynau canlynol, er enghraifft, helpu i ddiffinio lleoliad.

- Sut mae'r lleoliad presennol yn cyfrannu at ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r ased hanesyddol heddiw?
- Gan feddwl am yr adeg y cafodd yr ased hanesyddol ei adeiladu gyntaf a'i ddatblygu:
 - beth oedd ei gydberthnasau ffisegol, swyddogaethol a gweledol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a nodweddion naturiol?
 - pa nodweddion topograffig penodol a ddylanwadodd ar ei lleoliad?
 - beth oedd ei gydberthynas â'r dirwedd o'i amgylch?
 - a gafodd ei adeiladu er mwyn manteisio ar olygfeydd pwysig? Er y gall fod golygfa 360, mae'n bosibl bod rhai rhannau o'r olygfa yn bwysicach nag eraill.
- Gan feddwl am newidiadau ers i'r ased hanesyddol gael ei adeiladu:
 - a yw ei swyddogaeth wedi newid?
 - pa newidiadau sydd wedi digwydd i'r dirwedd o'i amgylch?
 - a yw'r newidiadau wedi digwydd oherwydd newidiadau i'r ased hanesyddol?
 - a yw presenoldeb yr ased hanesyddol wedi dylanwadu ar newidiadau i'r dirwedd, er enghraifft, pan fydd heneb wedi'i defnyddio fel marciwr yng nghynllun cae?
 - a yw golygfeydd hanesyddol a golygfeydd wedi'u cynllunio i'r ased hanesyddol ac oddi yno wedi newid?

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

- Gan feddwl am gynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a'i gydberthynas â'i dirwedd gysylltiedig:
 - a gafodd y cydberthnasau hyn eu cynllunio neu a oeddent yn rhai damweiniol?
 - sut y newidiodd y cydberthnasau hyn dros amser?
 - sut mae'r cydberthnasau hyn yn ymddangos yn y dirwedd bresennol; a ydynt yn nodweddion gweledol neu gladdedig?
- A oes unrhyw ffactorau pwysig eraill, megis cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol, cysylltiadau deallusol (er enghraifft, cysylltiadau â damcaniaeth, cynllun neu ddyluniad) neu gysylltiadau ag enwau llefydd, neu ffactorau synhwyraidd a all fod yn hanfodol i ddeall yr ased hanesyddol a'i leoliad?

Dylai Cam 2 hefyd nodi'r golygfannau lle y dylid asesu effaith y newid neu'r datblygiad arfaethedig, gan ystyried, er enghraifft:

- golygfeydd a gynlluniwyd ac a ddatblygwyd i edrych dros yr ased hanesyddol a'i leoliad
- golygfeydd atodol i'r ased hanesyddol ac oddi yno sy'n cyfrannu at ei arwyddocâd
- golygfeydd modern pwysig i'r ased hanesyddol ac oddi yno
- golygfeydd modern pwysig dros ac ar draws yr ased hanesyddol.

4.3 Cam 3: Gwerthuso Effaith Bosibl Newid neu Waith Datblygu

Gall effaith newid neu ddatblygiad arfaethedig ar leoliad ased hanesyddol fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio neu gydsyniadau eraill. Felly, mae'n bwysig ystyried a ellir ymgorffori'r datblygiad newydd mewn modd sensitif

Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried wrth asesu effaith newid neu ddatblygiad arfaethedig mae:

- effaith weledol y newid neu'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â graddfa'r ased hanesyddol a'i leoliad
- effaith weledol y newid neu'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â lleoliad yr ased hanesyddol
- pa un a fyddai'r newid neu'r datblygiad arfaethedig yn dominyddu'r ased hanesyddol neu'n amharu ar ein gallu i'w ddeall a'i werthfawrogi, gan gynnwys, er enghraifft, ei gydberthynas swyddogaethol neu ffisegol â'r dirwedd o'i amgylch a strwythurau cysylltiedig
- hyd oes y newid neu'r datblygiad arfaethedig

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

- maint y gorchudd coed, pa un a yw'n cynnwys coed collddail neu goed coniferaidd a pha mor hir y mae'n debygol o fyw
- presenoldeb, cwmpas, cymeriad a graddfa'r amgylchedd adeiledig presennol yn yr ardal o amgylch yr ased hanesyddol a sut mae'r newid neu'r datblygiad arfaethedig yn cymharu â hyn
- effaith gronnol y newid neu'r datblygiad arfaethedig — weithiau gall newidiadau cymharol fach, neu gyfres o newidiadau bach, gael effaith fawr ar ein gallu i ddeall, gwerthfawrogi a phrofi ased hanesyddol
- gallu lleoliad yn y dirwedd i dderbyn newid neu ddatblygiad newydd heb i'w nodweddion allweddol gael eu herydu
- effaith y newid neu'r datblygiad arfaethedig ar ffactorau anweledol y lleoliad, megis naws anghysbell, atgof o'r gorffennol hanesyddol, ymdeimlad o le, hunaniaeth ddiwylliannol neu ymatebion ysbrydol
- effaith elfennau anweledol y newid neu'r datblygiad arfaethedig, megis dileu neu ychwanegu synau ac arogleuon.

O gofio y dylai'r asesiad a'r gwerthusiad fod yn anghymesur ag effaith debygol y cynnig ar y lleoliad, gall ffotograffau o'r gwylfannau a nodwyd yn ystod cam 2 helpu i asesu ac esbonio effaith y newid neu'r datblygiad arfaethedig ar leoliad.¹⁷ Gall ffotogyfosodiadau sy'n dangos y newid neu'r datblygiad arfaethedig yn y golygfeydd hyn fod yn ddefnyddiol iawn hefyd. Gall pecynnau System Gwybodaeth Ddaearyddol gynnal adnoddau deongliadol defnyddiol megis fframiau gwifrog, adnodd dadansoddi Viewshed a modelau tir digidol.

Ar ddiwedd cam 3 dylai aseswr yr amgylchedd hanesyddol allu nodi effaith y cynigion ar leoliad yr ased hanesyddol. Mae'n ddefnyddiol mynegi effaith y datblygiad ar leoliad yr ased hanesyddol fel un gadarnhaol, niwtral neu negyddol. Gellir disgrifio effeithiau cadarnhaol neu negyddol fel rhai difrifol, cymedrol, bach neu fach iawn. Mae difrifol yn cyfateb i 'effaith sylweddol' yn nherminoleg asesiadau o'r effaith amgylcheddol.

Gan ddibynnu ar faint yr effaith, yn enwedig os yw'n ddifrifol neu'n gymedrol, dylid ystyried mesurau lliniaru i leihau effaith negyddol y cynigion.

4.4 Cam 4: Ystyried Opsiynau i Liniaru Effaith Newid neu Ddatblygiad Arfaethedig

Lliniaru yw'r camau a gymerir i osgoi neu leihau unrhyw niwed i arwyddocâd yr ased hanesyddol a'i leoliad.

Gallai mesurau lliniaru gynnwys, er enghraifft, addasiadau i'r cynllun a chyflwyno mesurau sgrinio. Fodd bynnag, gallai rhai mesurau lliniaru gael effaith negyddol ar leoliad yr ased hanesyddol; er enghraifft, gallai sgrin o goed fod yn ffurf anghydnaws

¹⁷Dylid defnyddio'r golygfeydd posibl gorau. Peidiwch â defnyddio golygfeydd sy'n cynnwys adeiladau neu lystyfiant os oes safleoedd sy'n cynnig golygfeydd heb eu cuddio ar gael.

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

mewn tirwedd sydd fel arall yn ddigoed neu gallai guddio'r cynllun planedig arfaethedig mewn parc neu ardd hanesyddol.

Gallai mesurau lliniaru hefyd gynnwys mesurau i wella lleoliad yr ased hanesyddol, megis symud strwythur neu leiniau o goed sy'n atal golygfeydd pwysig a nodwyd. At ddibenion cynllunio, byddai angen i fesurau o'r fath fod o fewn ffin y cais.

Os bydd effeithiau niweidiol ar leoliad yr ased hanesyddol wedi'u nodi a bod mesurau lliniaru wedi'u cyflwyno, dylid asesu maint yr effaith a'i gynnwys yn yr asesiad terfynol. Dylid cyflwyno mesurau lliniaru i'r awdurdod cynllunio lleol fel rhan o'r adroddiad terfynol i ategu'r cais cynllunio.

4.5 Dogfennu'r Asesiad

Dylid darparu canlyniadau'r asesiad mewn adroddiad ysgrifenedig sy'n ddealladwy i ddarllenwyr arbenigol a darllenwyr nad ydynt yn arbenigwyr.

Dylid adneuo copi o'r adroddiad gyda'r cofnod amgylchedd hanesyddol priodol er mwyn ymgynghori ag ef yn y dyfodol.

5. Mesurau Gwrthbwysu

Ni fydd cyflwyno mesurau gwrthbwysu na chynigion digolledu, megis mynediad cyhoeddus neu baneli dehongli, yn lleihau effaith uniongyrchol y datblygiad ar leoliad yr ased hanesyddol ac ni ddylid eu derbyn fel mesurau lliniaru. Serch hynny, dylai cynigion ar gyfer mesurau gwrthbwysu gael eu cyflwyno i'r awdurdod sy'n gwneud penderfyniadau fel y gall bwysu a mesur manteision y cynllun, gan gynnwys y mesurau digolledu, yn erbyn effaith y datblygiad ar arwyddocâd yr ased hanesyddol.

6 Gwella'r Lleoliad

Nid oes angen cynnal Cam 3 o'r broses asesu i sicrhau y caiff ased hanesyddol ei reoli mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, gallai'r asesw(y)r argymhell mesurau i wella lleoliad ased hanesyddol.

Gallai mesurau gwella gynnwys cael gwared â choed er mwyn agor golygfa a fwriedir,¹⁸ gwella mynediad cyhoeddus i wylfan neu ddarparu deunydd dehongli priodol. Dylid bod yn ofalus wrth argymhell mesurau gwella fel na fydd y gwaith o wella lleoliad ased hanesyddol yn cael effaith negyddol ar ased hanesyddol arall.

¹⁸Yn ddarostyngedig i reoliadau eraill, megis Gorchmynion Diogelu Coed

Atodiad

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) ar bob cais cynllunio sy'n effeithio ar leoliad heneb gofrestrdig ac yn bodloni'r meini prawf canlynol, yn eu barn hwy.¹⁹ Bydd angen i geisiadau gynnwys digon o wybodaeth i asesu effaith y cynnig ar y lleoliad ond dylai hyn fod yn gymesur â'r effaith debygol.

Meini Prawf

Gwaith datblygu sy'n debygol o fod yn weladwy o heneb gofrestrdig ac sy'n bodloni un o'r meini prawf canlynol:

- mae o fewn 0.5 cilometr i unrhyw fan ar berimedr heneb gofrestrdig
- mae o fewn cilometr i berimedr heneb gofrestrdig ac mae'n 15 metr neu fwy o uchder neu mae ganddo arwynebedd o 0.2 hectar neu fwy
- mae o fewn dau gilometr i berimedr heneb gofrestrdig ac mae'n 50 metr neu fwy o uchder, neu mae ganddo arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy
- mae o fewn tri chilometr i berimedr heneb gofrestrdig ac mae'n 75 metr neu fwy o uchder, neu mae ganddo arwynebedd o un hectar neu fwy
- mae o fewn pum cilometr i berimedr heneb gofrestrdig ac mae'n 100 metr neu fwy o uchder, neu mae ganddo arwynebedd o un hectar neu fwy.

¹⁹ [Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2016, atodlen 4 \(l\)\(i\) a \(ii\)](#)

Rhagor o Wybodaeth

Polisi a Chanllawiau

Polisi Cynllunio Cymru: Pennod 6 — Yr Amgylchedd Hanesyddol

[Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio](#)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Canllawiau Arferion Gorau

[Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn](#)

[Ffordd Gynaliadwy](#), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

[Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau yn ystod y Broses o](#)

[Gynllunio a Datblygu](#), (2^{ll}) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru,

Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Newid i Henebion Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Newid i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

[Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Ymgeisio](#), Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

[Datganiad Xi'an ar Gadw Lleoliad Strwythurau, Safleoedd ac Ardaloedd Treftadaeth](#), ICOMOS, 2005

Ffynonellau o Wybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru www.archiveswales.org.uk — Catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru.

Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongdrylliadau gwarchoddedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig.²⁰

Cofnodion amgylchedd hanesyddol ymddiriedolaethau archeolegol Cymru.

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

Porth Cymru Hanesyddol www.historicwales.gov.uk

²⁰ Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2017.

Cysylltiadau

Llywodraeth Cymru

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffon: 01443 336000
cadw@cymru.gsi.gov.uk
llyw.cymru/cadw

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 3BU
Ffon: 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.rcahmw.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk

Gallwch drefnu i ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle bydd y staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymchwilio i gymeriad hanesyddol, yn cynnwys mapiau hanesyddol, darluniau, ffotograffau a chofnodion arolygon.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, y Trallwng SY21 7RR
Ffon: 01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Tŷ Cornel, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
Ffon: 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffon: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

DRAFFT Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffon: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk